

# Ysgol Bro Gwaun

Pennaeth / Headteacher: Mr Paul Edwards



19/05/2022

Annwyl riant/gofalwr,

Ysgrifennaf atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y sefyllfa o fewn yr ysgol, ein cynlluniau ar gyfer ar ôl hanner tymor ac i roi rhai dyddiadau allweddol ichi.

## Gweithdrefnau Covid-19.

Mae'n bleser gennyf i rhannu mai ychydig iawn o achosion o covid-19 sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd. Er bod hyn yn sefyllfa braf i fod ynnddi, yn enwedig gan fod yr arholiadau TGAU wedi dechrau, rydym yn parhau i ofyn i bawb fod yn wyladwrus o unrhyw un o'r symptomau sy'n gysylltiedig â covid-19. Rhowch wybod i'r ysgol os oes gennych unrhyw bryderon neu amheuaeth y gallai eich plentyn fod wedi dal y firws a byddwn yn hapus i ddarparu pecyn profi LFT i chi i gadarnhau (neu beidio) presenoldeb y firws.

Mae'r canllawiau gan LIC yn dweud y dylai ysgolion drosglwyddo i sefyllfa weithredu lle mae covid-19 yn cael ei gategoreiddio yn yr un modd ag unrhyw glefyd trosglwyddadwy arall:

*"Gyda niferoedd cynyddol o bobl yn cael eu brechu ac ymdrechion parhaus pawb, nid yw gofynion cyfreithiol penodol coronafeirws yn berthnasol mwyach. Dylid nawr ystyried risgiau coronafeirws yn yr un cyd-destun â risgiau clefydau trosglwyddadwy eraill (er enghraifft ffliw a norofeirws). [Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a'r Gymraeg Mai 2022]"*

Felly gan ystyried y canllawiau cysylltiedig, bydd yr ysgol yn trosglwyddo'n ôl i'r gweithdrefnau gweithredu a oedd gennym cyn y pandemig. Y newidiadau allweddol yw:

- Ailgyflwyno cyfnodau egwyl a chinio cyfun i bob disgybl;
- Dychwelyd i'r strwythur dydd a oedd ar waith cyn y cyfyngiadau gwreiddiol;
- Gwisgo mwgwd yn wirfoddol i staff a disgyblion - bydd angen i ddisgyblion ddod â'u masgiau eu hunain i'r ysgol os ydynt yn dymuno parhau i wisgo un;
- Disgyblion i newid ar gyfer Addysg Gorfforol. (Ni fydd disgyblion yn dod i'r ysgol yn gwisgo gwisg ymarfer corff mwyach);
- Disgyblion i gael mynediad i loceri.

Byddwn yn parhau gyda:

- Mynedfeydd 'cwrdd a chyfarch' ar wahân wrth gyrraedd;
- Hyrwyddo awyru;
- Glanweithio dwylo a sychu desgiau ar ddechrau a diwedd gwersi;
- Y system un ffordd;
- Glanhau dyddiol tan ddiwedd y tymor.

Bydd asesiad risg yn cael ei gynnal yn unol â Chanllawiau Iechyd y Cyhoedd sy'n ymwneud â rheoli clefydau trosglwyddadwy ar gyfer sefydliadau fel ysgolion. Rydym hefyd yn parhau i aros am arweiniad pellach gan LIC.

## Rhaglen Adolygu TGAU y Sulgwyn Blwyddyn 10 ac 11.

Rydym wedi cynhyrchu rhaglen adolygu i dargedu'r pynciau hynny sydd eto i'w cael eu arholi. Bydd y rhaglen yn rhedeg o ddydd Llun 30ain Mai tan ddydd Mercher 1af Mehefin. Gofynnaf i chi ein cefnogi i sicrhau bod eich plentyn yn gwneud pob ymdrech i fynychu'r sesiynau sy'n berthnasol iddo. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r staff addysgu am roi o'u hamser i gynnal y sesiynau hyn. [Mae'r amserlen i'w gweld yma.](#)

## Newidiadau Amserlen Disgyblion.

Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT  
Rhif ffôn/Tel: 01348 872268 Ffacs/Fax: 01348 872716  
E-bost/E-mail: [office@ysgolbrogwaun.com](mailto:office@ysgolbrogwaun.com)



ITT Programme  
Partner School



# Ysgol Bro Gwaun

Pennaeth / Headteacher: Mr Paul Edwards

Bydd disgyblion Blwyddyn 9 yn dechrau ar eu cyrsiau TGAU ar ôl hanner tymor. I helpu'r broses, bydd pob disgybl yn derbyn amserlen newydd pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol ar Fehefin 6ed.



Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT  
Rhif ffôn/Tel: 01348 872268 Ffacs/Fax: 01348 872716  
E-bost/E-mail: office@ysgolbrogwaun.com



Bydd disgyblion Blwyddyn 9 yn gweld newidiadau sylweddol i'w hamserlenni, ond bydd grwpiau blwyddyn eraill hefyd yn cael eu heffeithio i ryw raddau a gallant weld mân newidiadau i'w hamserlenni, megis gwahanol ystafelloedd neu grwpiau addysgu.

**Dyddiadau Allweddol:**

Dydd Gwener 27ain Mai – Dydd Llun 6ed Mehefin: Hanner Tymor y Sulgwyn.

Dydd Gwener Mehefin 17eg: DIWRNOD HMS (Dim ysgol ar gyfer Blwyddyn 7-9 yn unig). **Arholiad TGAU Gwyddoniaeth Blwyddyn 10 (Cemeg) - Nodwch lythyr ar wahân at rieni/gofalwyr Blwyddyn 10 yn amlinellu trefniadau'r diwrnod hwn.**

Dydd Mawrth 21ain – Dydd Gwener 24ain Mehefin – Aseidiadau Personol ar gyfer disgyblion Blynnyddoedd 7-9.

Dydd Gwener 1af Gorffennaf: Ras Gyfnewid Baton y Gymanwlad (gweler isod).

Dydd Mercher 13eg Gorffennaf: Gwyl Gwaun (Manylion i ddilyn).

Dydd Iau 14eg Gorffennaf: Diwrnod olaf y tymor i bob disgybl. **Byddwch yn ymwybodol y gall y diwrnod olaf ar gyfer disgyblion yn YBG fod yn wahanol i ysgolion eraill.** Mae hyn o ganlyniad ein penderfyniad i gymryd ein diwrnodau HMS ar ddiwedd tymor yr haf yn hytrach nag yn gynharach yn y flwyddyn.

Dydd Iau 25 Awst: Diwrnod canlyniadau TGAU ar gyfer Blwyddyn 10 ac 11.

**Ras Gyfnewid Baton y Gymanwlad:**

Ar Ddydd Gwener 1af Gorffennaf, mae'r ysgol yn falch o groesawu Baton y Gymanwlad wrth iddi wneud ei ffordd o amgylch y wlad i baratoi ar gyfer Gemau'r Gymanwlad a gynhelir yn Birmingham yn yr haf. Bydd y baton ei hun yn gwneud ei ffordd i'r ysgol o Wdig, lle bydd yn cyrraedd mewn cwch o bae 'Lower-Town'. Bydd y baton gyda ni am gyfnod byr yn y bore a bydd y disgyblion yn cael cyfle i gael tynnu eu llun gydag ef. Rydym hefyd yn cynllunio cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar thema'r Gymanwlad i bob disgybl yn ystod y dydd. Byddwn yn darparu manylion maes o law.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Paul Edwards